




Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**



Fframwaith sefydlu Cymru
gyfan ar gyfer iechyd a
gofal cymdeithasol
Llyfr gwaith chwech

Diogelu unigolion

Rhagfyr 2017



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Manylion cyswilt

Gofal Cymdeithasol Cymru

South Gate House
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 0300 3033 444

Minicom: 029 2078 0680

E-bost: gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru

gofalcymdeithasol.cymru



@GofCymdeithasol

© 2018 Gofal Cymdeithasol Cymru

Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhychu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i gadw mewn system adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng heb ganiatad ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw. Dylai ymholiadau am atgynhychu y tu hwnt i'r hyn a ganiateir yn benodol gan y gyfraith gael eu hanfon at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a roddir uchod.

Fformatau eraill:

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Llyfr gwaith 6 y fframwaith sefydlu iechyd a gofal cymdeithasol: Diogelu Unigolion

Bydd y llyfr gwaith hwn yn eich helpu i archwilio'ch rôl yn diogelu oedolion, plant a phobl ifanc rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod. Fel gweithiwr newydd, mae angen i chi ddeall a gallu adnabod y mathau gwahanol o gamdriniaeth ac esgeulustod sy'n gallu digwydd. Hefyd, mae angen i chi wybod beth i'w wneud os ydych chi'n credu bod rhywun yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, a sut y gallwch chi weithio mewn ffyrdd sy'n amddiffyn unigolion. Bydd yn bwysig i chi gwblhau'r llyfr gwaith hwn law yn llaw neu ar ôl â hyfforddiant ymwybyddiaeth yn ymwneud â diogelu unigolion.

Cynnwys

6.1	Fframweithiau deddfwriaethol ar gyfer diogelu	5
6.2	Diogelu unigolion rhag niwed, camdriniaeth neu esgeulustod	8
6.3	Ffactorau, sefyllfaoedd a gweithredoedd a allai arwain neu gyfrannu at niwed, camdriniaeth neu esgeulustod	14
6.4	Adrodd a chofnodi mewn perthynas â diogelu	18
6.5	Myfyrio	24
6.6	Polisiâu a gweithdrefnau	25
6.7	Myfyrio ar leoliad ymarfer	26

6.1 Y fframwaith deddfwriaethol a'ch rôl

I gychwyn, bydd yr adran hon yn eich helpu i ddangos eich bod yn gwybod ystyr diogelu a'r mathau gwahanol o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod sy'n gallu digwydd. Hefyd, bydd yn gymorth i chi archwilio'r gyfraith a'r polisiau yng Nghymru sy'n helpu i ddiogelu oedolion, plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o niwed, camdriniaeth neu esgeulustod a'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol.

I'w defnyddio gan aseswyr cymhwyster

Gweithgaredd dysgu

Ysgrifennwch un neu ddwy frawddeg i egluro ystyr y termau canlynol:

- Niwed

- Camdriniaeth

- Esgeulustod

- Diogelu

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cyflwyno dau derm newydd mewn perthynas â diogelu:

- oedolyn mewn perygl
- plentyn mewn perygl

Amlinellwch eu hystyr yn y lle isod:

- Oedolyn mewn perygl

- Plentyn mewn perygl

Cofiwch fod diogelu yn gallu rhwystro niwed, cam-drin ac esgeulustod yn ogystal â gwarchod. Mae angen i chi feddwl am bwy a allai fod mewn perygl a sut i weithredu i helpu eu cadw'n ddiogel.

Gweithgaredd dysgu

Lluniwch restr o'r prif fathau o gamdriniaeth a rhai o'r arwyddion neu'r dangosyddion bod rhywun yn cael ei niweidio, ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Mathau o gamdriniaeth	Arwyddion neu ddangosyddion

*I'w defnyddio
gan aseswyr
cymhwyster*

Gweithgaredd dysgu

Nodiadau llyfr gwaith

*I'w defnyddio
gan aseswyr
cymhwyster*

Dewiswch dri darn o **ddeddfwriaeth a pholisiau cenedlaethol** a restrir yn yr eirfa, a disgrifiwch:

- sut maent yn helpu i ddiogelu unigolion yn ymarferol

- sut maent yn cefnogi hawliau unigolion i gael eu diogelu

Gweithgaredd dysgu

Mae diogelu yn fater i bawb. Fel gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol byddwch chi'n helpu i atal unigolion rhag cael eu niweidio, eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

Yn y lle isod, nodwch dair enghraifft lle mae cyfrifoldebau ar gyfer diogelu unigolion wedi'u hamlygu yn y **Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol**.

6.2 Diogelu unigolion rhag niwed, camdriniaeth neu esgeulustod

Bydd yr adran hon yn eich helpu i archwilio dulliau gweithio gwahanol sy'n diogelu unigolion rhag niwed, camdriniaeth neu esgeulustod ynghyd â'ch cyfrifoldebau os oes gennych chi bryderon neu os oes rhywun wedi gwneud cyhuddiad neu ddatgeliad.

I'w defnyddio gan aseswyr cymhwyster

Gweithgaredd Dysgu

Darllenwch y sefyllfaoedd canlynol a chwblhewch y cwestiynau:

- a.** Mae Nisha yn 13 oed. Mae hi wedi derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol ers pan oedd yn 8 oed. Mae ganddi fân anabledd dysgu a math o arthrits pobl ifanc sy'n cyfyngu ar ei symudedd. Mae hi eisiau ymuno ag ystafell sgwrsio arlein ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau er mwyn gwneud ffrindiau newydd a chael rhywbeth i'w wneud gyda'r nos pan nad yw'n ddigon iach i fynd allan gyda'i ffrindiau ysgol.

Nodiadau llyfr gwaith

1. Beth fyddai'ch pryderon?

2. Fel gweithiwr, beth fydddech chi'n ei wneud?

3. Sut fydddech chi'n sicrhau bod Nisha'n ymwybodol o'r peryglon o ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn iddi gadw ei hun yn ddiogel?

Cofiwch, dylai diogelu fod yn rhan o helpu pobl i fyw bywydau llawn ac nid atal camdriniaeth, esgeulustod a niwed yn unig. Mae'n golygu gweithio gydag unigolion i'w helpu i ddeall risg a sut maent yn gallu diogelu eu hunain wrth gymryd y camau gofynnol i leihau risg.

b. Mae'ch sefydliad yn cefnogi unigolion ag anableddau dysgu amrywiol mewn canolfan ddydd gymunedol. Mae Paul wedi symud i fyw gyda'i frawd yn ddiweddar. Mae wedi byw gyda'i rieni hyd yn hyn, ond mae'n awyddus i fod yn fwy annibynnol. Mae Paul wedi mynychu'r ganolfan yn rheolaidd iawn yn y gorffennol, gan brin fethu diwrnod, ond ar ôl symud i fyw gyda'i frawd mae ei bresenoldeb wedi dirywio'n fawr. Os yw rhywun yn holi Paul am hyn mae'n dweud ei fod wedi bod yn brysur yn symud i fyw gyda'i frawd. Ar yr adegau pan fydd yn mynychu'r ganolfan dros yr wythnosau nesaf, rydych chi'n sylwi bod golwg mwy aflêr arno a bod ei ddillad yn fudr yn aml. Hefyd, mae wedi methu apwyntiad ar gyfer archwiliad arferol yn yr ysbyty, ac mae'n edrych fel ei fod wedi colli pwysau. Rydych chi'n dweud wrth eich cydweithwyr lefel uwch am yr hyn rydych chi wedi sylwi arno, ond nid yw'n ymddangos eu bod yn poeni llawer. Wrth gyrraedd y ganolfan heddiw, mae Paul yn dweud wrthyhych na fydd yn dychwelyd eto, mae'n edrych fel ei fod yn anhapus wedi cynhyrfu ond mae'n dweud mai ei ddewis ef yw hyn.

*I'w defnyddio
gan aseswyr
cymhwyster*

Nodiadau llyfr gwaith

1. Beth fyddai'ch pryderon?

2. Pa fath o niwed, camdriniaeth neu esgeulustod allai fod yn digwydd?

3. Beth yw'r arwyddion neu'r symptomau?

4. Beth ddylech chi ei wneud?

*I'w defnyddio
gan aseswyr
cymhwyster*

5. Pwy ddylech chi ei hysbysu am y mater hwn?

6. Sut fydddech chi'n cofnodi ac yn adrodd am hyn?

Mae llyfrau gwaith 1 a 2 yn helpu i ddatblygu eich dealltwriaeth o **eiriolaeth**.
Sut ydych chi'n meddwl y gallai eiriolaeth helpu Paul yn y sefyllfa hon?

Gweithgaredd dysgu

Mae datblygu cysylltiadau da â'r unigolion sy'n cael cymorth gennych yn rhan bwysig o rôl y gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn y lle isod, amlinellwch pam eich bod yn meddwl bod hyn yn bwysig ar gyfer diogelu unigolion.

Nodiadau llyfr gwaith

c .Mae dementia ar Mr Harris, sy'n byw ar ei ben ei hun yn ei gartref. Mae pobl yn galw i'w helpu dair gwaith y dydd. Mae'n gallu gwneud llawer drosto ei hun o hyd, ond mae angen ei annog. Nodwyd ei fod mewn perygl o esgeuluso ei hun oherwydd ei fod yn anghofio bwyta, ymolchi neu gymryd ei feddyginiaeth. Mae Mary ar ddyletswydd ar gyfer yr ymweliad min nos. Mae'n gofyn i Mr Harris beth yr hoffai ei gael i'w fwyta, ond mae'n dweud nad oes chwant bwyd arno. Mae'r un peth yn digwydd pan fydd Mary yn galw dros y ddau ddiwrnod nesaf, ac mae Mr Harris yn dweud nad oes chwant bwyd arno neu ei fod wedi bwyta yn barod. Pan fydd merch Mr Harris yn galw i'w weld dros y penwythnos, mae'n sylwi bod yna brydau bwyd heb eu bwyta yn yr oergell ac mae'n ymddangos bod ei thad wedi colli pwysau. Beth ddylai Mary fod wedi'i wneud?

*I'w defnyddio
gan aseswyr
cymhwyster*

Gweithgaredd Dysgu

Yn y lle isod, rhowch enghreifftiau o sut rydych chi'n mynd ati i hyrwyddo a chynorthwyo i ddiogelu unigolion yn eich gwaith bob dydd. Trafodwch yr enghreifftiau hyn gyda'ch rheolwr a gofynnwch iddo ychwanegu sylwadau.

Nodiadau llyfr gwaith

*I'w defnyddio
gan aseswyr
cymhwyster*

Nodiadau'r rheolwr

6.3 Ffactorau, sefyllfaoedd a gweithredoedd a allai arwain neu gyfrannu at niwed, camdriniaeth neu esgeulustod

Mae'n bwysig bod yn effro i'r ffaith y gall niwed, camdriniaeth ac esgeulustod ddigwydd yn unrhyw le ar unrhyw bryd. Fodd bynnag, gall rhai **gweithredoedd, mathau o ymddygiad neu sefyllfaoedd gynyddu'r risg o niwed a chamdriniaeth**. Bydd yr adran hon yn eich helpu i'w deall.

I'w defnyddio gan aseswyr cymhwyster

Gweithgaredd Dysgu

Yn y lle isod, eglurwch pam eich bod yn meddwl y gallai rhai unigolion fod mewn mwy o berygl na'i gilydd.

Nodiadau llyfr gwaith

Gweithgaredd Dysgu

Pam ydych chi'n meddwl nad yw achosion o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod yn cael eu codi gan y canlynol bob amser:

Oedolion mewn perygl

Plant a phobl ifanc mewn perygl

Teulu a ffrindiau

Gweithwyr

*I'w defnyddio
gan aseswyr
cymhwyster*

Gweithgaredd Dysgu

Mae llawer o unigolion sy'n dioddef niwed, camdriniaeth neu esgeulustod nad ydynt yn ystyried eu hunain yn ddioddefwyr. Gallant gredu bod yr hyn sy'n digwydd yn normal, yn dderbyniol neu'n ofynnol i ennill 'cariad', sylw a chymeradwyaeth.

Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn fath o gam-drin rhywiol. Bu nifer o achosion proffil uchel yn ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys achos o gamdriniaeth ar raddfa fawr yn Rotherham rhwng 1997 a 2013. Amcangyfrifir bod 1,400 o blant wedi'u cam-drin yn rhywiol yn ystod y cyfnod hwn. Dyma hanes un dioddefwr:

Roedd Emma yn 12 oed pan gyfarfu gyntaf â grŵp o ddynion ifanc mewn arcêd yn Rotherham. Dechreuodd y dynion ifanc siarad â hi a meithrin cyfeillgarwch gyda hi. Aethant ati i'w chyflwyno i ddynion hŷn eraill a rhoi alcohol a chyffuriau meddal iddi. Roedd hi'n ymddiried ynddynt gan nad oeddent wedi gwneud iddi deimlo'n anghyfforddus neu'n anniogel cyn hynny - roeddent yn ffrindiau iddi. Fodd bynnag, newidiodd hyn flwyddyn yn ddiweddarach pan gafodd Emma ei threisio yng ngŵydd nifer o bobl. O'r adeg honno ymlaen fe gafodd ei threisio unwaith yr wythnos, bob wythnos, gan ddieithriaid yn aml. Fe gafodd ei bygwth a'i dychryn - a dywedodd y dynion y byddent yn treisio ei mam hyd yn oed. Roedd wedi mynd at yr heddlu dri mis ar ôl i'r gamdriniaeth ddechrau, ond dywedwyr wrthi y byddai'n anodd i'r heddlu sicrhau euogfarn gan nad oedd unrhyw dystion i'r digwyddiadau. Dywedodd wrth ei mam am yr hyn oedd yn digwydd, ac fe aeth hi at yr awdurdodau perthnasol hefyd, ond ni ddigwyddodd unrhyw beth. Yn y diwedd, penderfynodd ei theulu adael yr ardal er mwyn ei diogelu.¹

Atebwch y cwestiynau yn y lle isod:

Nodiadau llyfr gwaith

1. Beth oedd nodweddion ymddygiad cyflawnwr a pharatoi i bwrpas rhyw yn yr achos hwn?

¹ Erthygl newyddion y BBC 24/08/14

2. Pam nad oedd Emma'n sylweddoli ei bod yn cael ei cham-drin yn y lle cyntaf?

*I'w defnyddio
gan aseswyr
cymhwyster*

3. Pam na wnaeth gweithwyr proffesiynol / asiantaethau weithredu i atal y gamdriniaeth?

4. Pam oedd hi'n bwysig cynnal ymchwiliad annibynnol i'r achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn Rotherham?

5. Sut y gellid bod wedi diogelu Emma yn well?

Gweithgaredd Dysgu

Dewiswch bedwar o'r gweithredoedd, y mathau o ymddygiad neu'r sefyllfaoedd o'r eirfa sy'n cynyddu'r risg o niwed neu gamdriniaeth, gan amlinellu'ch rhesymau.

Nodiadau llyfr gwaith

*I'w defnyddio
gan aseswyr
cymhwyster*

6.4 Adrodd a chofnodi mewn perthynas â diogelu

Bydd yr adran hon yn eich helpu i wybod beth i'w wneud os oes gennych chi bryderon yn ymwneud â niwed, camdriniaeth neu esgeulustod, neu os yw unigolyn yn gwneud cyhuddiad neu ddatgeliad i chi.

Gweithgaredd Dysgu

Meddyliwch am achos Paul. Beth ydych chi'n meddwl yw'r pethau 'i'w gwneud a pheidio â'u gwneud' wrth iddo ddechrau rhannu'r hyn sydd wedi bod yn digwydd dros yr wythnosau diwethaf?

Pethau i'w gwneud:

Pethau i beidio â'u gwneud:

I'w defnyddio gan aseswyr cymhwyster

Gweithgaredd Dysgu

Mae angen mynd i'r afael ag achosion o niwed, camdriniaeth neu esgeulustod yn gyflym ac yn effeithiol. Mae'n rhaid rhoi gwybod am ddiogelwch a lles unigolyn yn unol â pholisi diogelu'ch gweithle. Gall pryderon ymwneud ag ymarfer gwael yn y gweithle ac mae'n bwysig gwybod beth i'w wneud mewn achosion o'r fath.

Darllenwch yr astudiaeth achos isod ac atebwch y cwestiynau wedyn.

Astudiaeth achos

Mae'r hyn a ddigwyddodd mewn ysbyty dosbarth bach a reolwyd gan Ymddiriedolaeth GIG Canolbarth Swydd Stafford rhwng 2005 a 2008 wedi'i ddisgrifio fel y sgandal gofal ysbyty gwaethaf yn y cyfnod diweddar.²

Yn dilyn ymchwiliad i'r gofal a ddarparwyd yn ysbyty Stafford, daeth i'r amlwg bod elfennau sylfaenol gofal wedi'u hesgeuluso yn achos llawer o gleifion. Anwybyddwyd ceisiadau cleifion i ddefnyddio'r ystafell ymolchi, a chawsant eu gadael yn gorwedd ar gynfasau wedi baeddu ac eistedd ar gomodau am oriau, gan deimlo cywilydd ac ofn yn aml. Nid oedd rhai cleifion wedi'u hymolchi ers hyd at fis. Roedd bwyd a diod allan o gyrraedd cleifion, ac roedd llawer yn gorfod dibynnu ar aelodau'r teulu am gymorth i fwydo. Methodd y staff â sylwi ar y pethau sylfaenol, ac roedd meddyginiaeth lladd poen yn cael ei rhoi'n hwyr, neu ddim yn cael ei rhoi o gwbl mewn rhai achosion. Roedd cleifion yn cael eu rhyddhau yn rhy fuan yn aml, ac yn gorfod cael eu derbyn yn ôl yn fuan wedyn. Roedd y safonau glanweithdra yn ofnadwy ar adegau, a bu'n rhaid i deuluoedd symud hen rwymynnau a gorchuddion o fannau cyhoeddus a glanhau toiledau oherwydd yr ofn o ddal heintiau.

Daeth yr Ymchwiliad i'r casgliad bod prinder staff dybryd, a staff nyrsio yn benodol, yn bennaf gyfrifol am y gofal is-safonol. Roedd morâl yn yr Ymddiriedolaeth yn isel, ac er bod llawer o'r staff yn gwneud eu gorau mewn amgylchiadau anodd, roedd eraill yn dangos diffyg tosturi difrifol tuag at eu cleifion. Roedd y staff a fynegodd bryderon yn teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu, ac mae yna dystiolaeth gref fod llawer wedi'u hatal rhag siarad am yr hyn oedd yn digwydd drwy gael eu dychryn a'u bwlio. Ychwanegodd Robert Francis CF: "Mae'n glir bellach bod rhai aelodau staff wedi mynegi pryder ynglŷn â safon y gofal a oedd yn cael ei ddarparu i gleifion. Y drasiedi yw bod y lleisiau hyn wedi'u hanwybyddu, ac yn waeth na hynny, fe gafodd eraill eu hatal rhag mynegi eu pryderon."

Nodiadau llyfr gwaith

*I'w defnyddio
gan aseswyr
cymhwyster*

2 Erthygl papur newydd The Guardian 06/02/13 - <https://www.theguardian.com/society/2013/feb/06/mid-staffs-hospital-scandal-guide>

1. Pa bethau allweddol a fyddai wedi gwneud gwahaniaeth i atal y niwed a'r gamdriniaeth yn yr ysbyty?

*I'w defnyddio
gan aseswyr
cymhwyster*

2. Pa rwystrau oedd yn wynebu rhai o weithwyr yr ysbyty rhag mynegi eu pryderon ynglŷn â diogelwch cleifion?

3. Beth yw cyfrifoldebau gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol lle gall ymarfer cydweithwyr neu weithwyr proffesiynol eraill fod yn anniogel, yn gamdriniol neu'n dangos esgeulustod?

4. Beth yw ystyr y term 'chwythu'r chwiban' a sut mae'n berthnasol i ddiogelu unigolion?

5. Beth ddylech chi ei wneud os nad yw pryderon yn cael eu cymryd o ddifrif neu os nad oes neb yn gweithredu arnynt?

Gweithgaredd Dysgu

Cofnodi mewn perthynas â diogelu

Mae cadw cofnodion da yn rhan bwysig o arferion diogelu da. Mae'r sefyllfa ganlynol yn dangos arferion cofnodi da a gwael:

Gweithiwr cymorth mewn canolfan ddydd ar gyfer pobl ag anabledau dysgu yw Terry. Mae'n dod ymlaen yn dda â Mair sy'n defnyddio'r ganolfan ddydd yn rheolaidd. Mae Mair yn byw gyda'i rhieni a'i brawd, Jon. Un diwrnod mae Mair yn cyrraedd y ganolfan ar ôl y penwythnos ond yn hytrach na dilyn ei threfn arferol gadw'i chot ac yna'n sgwrsio â phawb yn y gweithdy crefft 'aildefnyddio', mae'n dweud ei bod yn oer a bod ei braich yn brifo. Mae Terry yn gofyn pam fod ei braich yn brifo ac mae Mair yn dweud ei bod wedi taro yn erbyn dodrefn wrth lanhau'r tŷ. Mae hi'n dweud mai Jon oedd ar fai. Mae Mair yn ymddangos yn fwy distaw nag arfer weddill y dydd. Mae Terry yn sylwi bod arddwrn de Mair yn edrych yn chwyddedig a braidd yn wyrdd. Nid yw Mair yn gadael i Terry edrych ar ei braich ac mae'n gwisgo ei chot drwy'r dydd. Mae Terry yn dweud wrth reolwr y ganolfan am hyn sy'n cytuno y dylai Terry ofyn i Mair am ganiatâd i holi ei rheini am yr hyn a ddigwyddodd. Mae Mair yn cytuno.

Ar ddiwedd y dydd daw mam a thad Mair i'w chasglu o'r ganolfan ac mae Terry yn eu holi am anaf Mair. Mae ei rhieni'n dweud bod Mair yn drwsogl bob amser ac mae'n rhaid ei bod wedi anafu ei braich wrth fwydo'r ieir yn yr ardd neithiwr. Mae Terry yn herio hyn gan ddweud bod y clais yn edrych yn hŷn na hynny a bod Mair wedi dweud mai Jon oedd yn gyfrifol. Mae rhieni Mair yn ymddwyn yn amddiffynnol ac yn ddig gan ddweud eu bod yn fwy nag abl i ofalu am eu merch eu hunain.

Mae Terry yn poeni y gallai Mair fod wedi'i cham-drin. Mae'n ysgrifennu adroddiad fel a ganlyn: Ddydd Mawrth yr wythnos hon fe gyrhaeddodd Mair Jones y ganolfan gyda braich chwyddedig a oedd wedi'i chleisio'n ddrwg. Rwy'n meddwl bod ei brawd wedi bod yn ymladd gyda hi eto gan ei fod yn gallu bod yn genfigennus o'r sylw ychwanegol sy'n cael ei roi i Mair gan ei rhieni, ac mae mewn trafferth gyda'r heddlu'n aml. Fe wnes i siarad â'i rhieni ond fe wnaethon nhw ymddwyn yn amddiffynnol cyn gadael ar frys mewn hwyliau drwg. Mae'n debygol iawn eu bod yn ceisio cuddio'r ffaith na allant ofalu am Mair yn briodol mwyach ond bod yn rhaid iddynt gadw'r teulu gyda'i gilydd a pheidio â chynnwys neb arall.

Mae Terry wedi gwneud cyfres o dybiaethau yma. Mae wedi dangos rhagfarn yn erbyn pobl ac mae'n defnyddio gwybodaeth am Jon nad oes unrhyw ffynhonnell arall yn ei chadarnhau. Nid yw wedi bod yn wrthrychol nac yn ffeithiol ac mae mewn perygl o gael ei gyhuddo o ymddwyn yn rhagfarnllyd, yn amhroffesiynol a hyd yn oed yn enllibus gan ei fod yn gwneud cyhuddiadau. Mae Terry yn llygad ei le'n poeni am yr anaf, y ddau esboniad gwahanol o'r hyn a ddigwyddodd, ymddygiad anarferol Mair ac ymateb ei rhieni. Gweithredodd yn briodol drwy beidio â holi Mair yn ormodol a gofyn am ei chaniatâd cyn siarad â'i theulu. Hefyd, gweithredodd Terry yn briodol drwy beidio â rhannu

*I'w defnyddio
gan aseswyr
cymhwyster*

ei amheuon â neb arall ac eithrio'r rheolwr. Llwyddodd i adnabod arwyddion posibl o gamdriniaeth ac aeth ati i roi gwybod amdanynt mewn ffordd briodol yn syth, gan gadw cofnod ysgrifenedig o'r digwyddiadau. Byddai ei gofnod yn well pe bai'n debycach i hyn:

Heddiw, 6 Mehefin 2016 mynychodd Mair ganolfan ddydd 'The Beeches'. Roedd hi'n gwisgo cot aeaf fawr a gwrthododd ei diosg, gan ddweud bod ei braich dde yn brifo. Wnaeth hi ddim siarad llawer heddiw a doedd hi ddim eisiau cymryd rhan yn y grŵp crefft. Roedd hyn yn anarferol iawn gan fod Mair yn awyddus iawn i dorchi llewys a dechrau creu pethau yn y grŵp fel arfer. Gallwn weld bod ei harddwrn de yn edrych yn chwyddedig a bod marc gwyrdd yn debyg i glais arno. Pan ofynnais beth oedd wedi digwyddodd fe ddywedodd ei bod wedi brifo ei braich wrth lanhau'r tŷ y diwrnod cynt ac mai 'ei brawd, Jon, oedd ar fai'. Ar ôl trafod y mater â'r rheolwr, cytunwyd y dylwn siarad â theulu Mair ar ôl gofyn am ei chaniatâd. Fe gefais i ganiatâd Mair i holi ei rhieni am ei braich, ac fe wnaethon nhw ddweud eu bod yn meddwl bod Mair wedi brifo ei hun ddoe wrth fwydo'r ieir yn yr ardd a'i bod yn drwsogl bob amser. Fe wnaeth fy nghwestiynau eu gwylltio nhw, ond roedd Mair yn ymddangos yn awyddus i adael gyda nhw.

Nodiadau llyfr gwaith

1. Pam y mae'n bwysig cofnodi gwybodaeth sy'n cael ei hadrodd am gamdriniaeth, niwed neu esgeulustod a amheuir neu wirioneddol?

2. Gwnewch restr o'r hyn sydd angen ei gofnodi:

*I'w defnyddio
gan aseswyr
cymhwyster*

3. Disgrifiwch sut y dylid cofnodi gwybodaeth o'r fath e.e. mewn ffordd amserol.

*I'w defnyddio
gan aseswyr
cymhwyster*

Gweithgaredd Dysgu

ae'n bwysig bod gweithwyr yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda os oes angen ymdrin â sefyllfaoedd diogelu.

Trafodwch â'ch rheolwr ble a sut y byddech chi'n gallu cael gafael ar gymorth personol.

Nodiadau llyfr gwaith

6.5 Myfyrio

Gweithgaredd dysgu

Mae myfyrio yn rhan hanfodol o ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol. Yn y lle isod, nodwch dri pheth rydych chi wedi'u dysgu drwy gwblhau'r llyfr gwaith hwn a sut y byddwch chi'n eu rhoi ar waith.

Nodiadau llyfr gwaith

*I'w defnyddio
gan aseswyr
cymhwyster*

6.6 Polisiâu a gweithdrefnau

Bydd gan bob **gweithle bolisiau a gweithdrefnau** ar ddiogelu ac mae'n bwysig gwybod beth i'w wneud os oes gennych chi bryderon neu os oes rhywun yn datgelu gwybodaeth i chi. Os ydych chi'n gweithio i sefydliad eisoes, gofynnwch i'ch rheolwr am gopi o'r polisi diogelu.

Er mwyn profi'ch dealltwriaeth, atebwch y cwestiynau canlynol:

Gweithgaredd dysgu

Nodiadau llyfr gwaith

1. Beth ddylech chi ei wneud os oes gennych chi bryderon bod rhywun yn cael ei niweidio, ei gam-drin neu ei esgeuluso?
2. Beth fyddech chi'n ei wneud pe bai unigolyn yn gofyn i chi beidio â rhannu'ch pryderon ei fod yn cael ei niweidio, ei gam-drin neu ei esgeuluso?
3. Â phwy fyddech chi'n rhannu'ch pryderon?
4. Pwy ddylech chi osgoi rhannu'ch pryderon â nhw?

*I'w defnyddio
gan aseswyr
cymhwyster*

6.7 Myfyrio ar leoliad ymarfer

Siaradwch â rheolwr yn eich lleoliad gwaith ynglŷn â sut rydych chi wedi rhoi diogelu unigolion mewn iechyd a gofal cymdeithasol ar waith.

Ysgrifennwch gofnod myfyriol byr a gofynnwch i'r rheolwr gofnodi crynodeb yn y lle isod.

Nodiadau'r gweithlyfr

I'w defnyddio gan aseswyr cymhwyster

Adborth y rheolwr

Defnyddiwch y lle isod i gofnodi unrhyw drafodaethau rhyngoch chi a'ch asesydd cymwysterau.

Nodiadau trafodaeth gyda'r asesydd cymwysterau

*I'w defnyddio
gan asesydd
cymhwyster*

Os yw tystiolaeth o'r gweithlyfr yn cael ei defnyddio tuag at y cymhwyster mae'n rhaid i'r asesydd gwblhau'r datganiad isod.

*I'w defnyddio
gan aseswyr
cymhwyster*

Datganiad gweithiwr newydd

Rwy'n cadarnhau bod y dystiolaeth a roddwyd ar gyfer y gweithlyfr yn ddilys ac yn cynrychioli fy ngwaith i'n gywir.

Llofnod y dysgwr

Dyddiad

Datganiad y rheolwr

Rwy'n cadarnhau bod y gweithiwr newydd wedi cyflawni holl ofynion y gweithlyfr gyda'r dystiolaeth a gyflwynwyd.

Llofnod y rheolwr

Dyddiad

Datganiad asesydd cymwysterau

Rwy'n cadarnhau bod y dysgwr wedi cyflawni holl ofynion y gweithlyfr gyda'r dystiolaeth a gyflwynwyd. Cynhaliwyd asesiad o dan yr amodau penodedig ac mae'r dystiolaeth yn ddilys, gwir, dibynadwy, cyfredol a digonol.

Llofnod asesydd cymwysterau

Dyddiad